# Polisi Rheoli Gwastraff

Mae gan Brifysgol Bangor oddeutu 10,000 o fyfyrwyr a 2,000 o aelodau staff wedi eu lleoli ar ystad o tua 100 o adeiladau ar draws 300+ hectar. Ein busnes craidd yw darparu addysgu ac ymchwil o ansawdd uchel a chymryd gofal da o'n staff, myfyrwyr, y gymuned a'r amgylchedd.

Rydym yn deall bod ein gweithgareddau'n cael effaith ar yr amgylchedd. Byddwn yn gweithio i wneud gwelliannau parhaus yn ein harferion rheoli gwastraff ac yn ymdrechu i leihau'r gwastraff a gynhyrchwn er mwyn cyflawni'r nodau a nodir yn Strategaeth Tuag at Ddyfodol Di-wastraff 2010, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016, gan hefyd fodloni gofynion safon amgylcheddol ISO 14001:2015.

Bydd Prifysgol Bangor yn rheoli ei gwastraff drwy wneud y canlynol:

i. sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a rheoliadau perthnasol sy'n gysylltiedig â'n gweithgareddau, a lle bo'n bosibl, mynd y tu hwnt i'r gofynion hynny.

ii. sefydlu amcanion a thargedau sy'n ymwneud â gwastraff ac adrodd am gynnydd yn flynyddol.

iii. rhoi'r Hierarchaeth Wastraff ar waith wrth wneud penderfyniadau; ystyried atal yn gyntaf, yna ailddefnyddio neu baratoi at ailddefnyddio, yna ailgylchu (sy'n cynnwys treulio anaerobig), ac yna dulliau eraill o adennill, megis adennill ynni, cyn gwaredu (tirlenwi).

iv. parhau i osgoi anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi lle bo'n bosibl, yn enwedig gwastraff y gellir ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei adennill trwy wella gohebiaeth a chyfleusterau ailgylchu.

v. adolygu deunyddiau a ddefnyddir ac a werthir yn y Brifysgol, gan gynnwys plastigau a deunyddiau pacio, a cheisio sicrhau y gellir ailddefnyddio neu ailgylchu cynhyrchion (cylch caeedig yn ddelfrydol) lle bynnag bo'n bosibl, er mwyn cyfrannu at economi gylchol

vi. annog staff i gael gwared ar ddodrefn swyddfa ac eitemau eraill nad oes arnynt eu hangen mwyach er mwyn eu hailddosbarthu ledled y Brifysgol, a sicrhau bod staff yn ystyried yr eitemau hynny cyn prynu rhai newydd.

vii. codi ymwybyddiaeth ymhlith staff, myfyrwyr ac ymwelwyr o'r ymarfer gorau o ran rheoli gwastraff trwy well cyfathrebu a chyfranogiad, sgyrsiau, seminarau, ymgyrchoedd a mentrau.

Bydd Tîm Perfformiad Amgylcheddol y Campws yn ystyried effeithiolrwydd y Polisi Rheoli Gwastraff yn rheolaidd. Mae'r Grŵp Gweithredu Cynaliadwyedd yn adolygu'r Polisi yn ffurfiol bob 3 blynedd. Mae'r Polisi ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Brifysgol.

**Cymeradwywyd gan:** **Dyddiad: 15/10/2024**

**Yr Athro Oliver Turnbull, Dirprwy i'r Is-ganghellor a Chadeirydd y Grŵp Gweithredu Cynaliadwyedd**